# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 2il Medi 2021 am 7.30 pm yn Neuadd Cilcennin

Yn bresennol: Y Cynghorydd Iwan Thomas (Cadeirydd), y Cynghorwyr Robert Davies, Helen Evans, Arwel Jones, John Lumley a Gwyndaf Morgan. Denfer Morgan (Clerc).

430 **Ymddiheriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies, Alwen Thomas, Ray Williams a'r Cynghorydd Sir Marc Davies am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod

431 **Personol**

Cyfeiriwyd at farwolaeth diweddar Mrs Linda Davies sef mam Michelle Davies a chytunwyd cydymdeimlo gyda Michelle a'r teulu.

432 **Datgelu Buddiant**

Fe ddatgelodd y Cynghorydd Iwan Thomas fuddiant bersonol ac un sy'n rhagfarnu yn y mater y cyfeirir ato yng nghofnod 440 isod.

433 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1af Gorffennaf 2021.

434 **Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD**

i) talu'r canlynol:

| | |
|---|---|
| ZMI - Adnewyddu Yswiriant y Cyngor. | £456.22 |
| Cyflog y Clerc (Gorff-Awst-Medi): | |
| Denfer Morgan | £294.91 |
| CThEM (TWE) | £73.73 |

b) cytuno talu cyfraniad o £100 a gytunwyd y llynedd i Bwll Nofio Aberaeron a'r Cylch, na chafodd ei gyflwyno bryd hynny.

435 **Materion Cynllunio**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau cynllunio isod a gwnaed y penderfyniad fel a nodir.

A210718 - Bryn Lluest, Cilcennin. *Proposed kennels and alterations to existing kennels to include alterations to existing access and installation of cesspit and demolition of one kennel block.*

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

A210720 - Bronfa, Dihewyd. *Proposed erection of detached motorcycle and garden store building, adjacent to main dwelling, complete with flat roof for use as garden seating area.*

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

436 **Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin**

Adroddodd y Cadeirydd fod y llythyr wedi'i anfon at Awdurdodau'r Eglwys a chydnabyddwyd ei dderbyn ganddynt.

437 **Cynllun Band Eang Wefibre**

Adroddodd y Clerc ei fod wedi trafod y sefyllfa diweddaraf gyda swyddfa Ben Lake AS a gyda Neil Davies o Wefibre.

Roedd swyddfa Ban Lake yn dweud fod y cyfarfod nesaf gyda Openreach ym mis Hydref, ac ni ddisgwylyd rhagor o wybodaeth cyn hynny.

Ond yn y cyfamser, roedd DCMS wedi cadarnhau na fyddai gwaith adnewyddu gan Openreach yn effeithio ar allu pobl i hawlio am dalebau, felly roedd yn dal yn bosib i edrych ar y posibilrwydd o gynllun gan WeFibre.

Roedd Neil Davies o Wefibre wedi darparu'r gwybodaeth canlynol:

- fod cynllun Llanrhystud a Llanon yn mynd yn ei flaen
- fod y gwaith yn mynd yn ei flaen i ddod o hyd i danysgrifwyr posib i greu cynlluniau yn ardal Cross Inn / Nebo / Trawsnant / Trefenter ac yn ardal Felinfach / Temple Bar
- fod 'na amser o hyd i benderfynnu bwrw mlaen i ddod o hyd i danysgrifwyr posib i greu cynllun ar gyfer Cilcennin / Ciliau Aeron / Dihewyd.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nad oedd y gwybodaeth a gasglwyd gan y Clerc yn ateb y cwestiwn ynghylch pa gyfnewidfa oedd yn gwasanaethu rhannau o'r Gymuned a allai effeithio unrhyw gynllun a gofynwyd i'r Cadeirydd gysylltu gyda Swyddfa Ben Lake er mwyn cael eglurhad cliriach o'r sefyllfa.

438 **Honiad o Or-yrru yng Nghilcennin**

Dywedodd y Clerc ei fod wedi cysylltu dair gwaith gyda GoSafe Cymru trwy eu gwefan, ond heb gael ateb.

**PENDERFYNWYD** bwrw mlaen i geisio cael ateb gan GoSafe Cymru.

439 **Menter Tafarn y Vale, Ystrad Aeron**

Nodwyd y gwybodaeth a gyflwynwyd gan Iwan ar sefydlu cwmni

cydweithredol i brynu, datblygu a staffio Tafarn y Vale.

440 **Cyfethol Aelod**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad ar y tri cais a dderbyniwyd o bersonau ar gyfer eu cyfethol i wasanaethu fel Cynghorydd i gynrychioli Ward Cilcennin ar gyfer y cyfnod Hydref 2021 – Mai 2022 (pan y byddai etholiad o'r Cyngor i gyd yn cael ei gynnal).

Roedd y pleidleisiau fel a ganlyn:-

Michelle Davies – 4 pleidlais
Rhun Fychan – 1 pleidlais
Elizabeth Screen – dim pleidlais.

**PENDERFYNWYD** felly cyfethol Ms Michelle Davies i wasanaethu fel Aelod o'r Cyngor tan etholiad mis Mai 2022.

441 **Unrhyw Fater Arall**

Cytunwyd y canlynol:

a) diolch i Dave Giles am baentio potiau blodau a mainc a chwynnu a thacluso'n gyffredinol yng Nghilcennin.

b) dwyn sylw'r Cyngor Sir at gyflwr y ffordd ddi-ddosbarth sy'n arwain o'r groesfan i'r Eglwys yng Nghiliau Aeron

c) gofyn i'r Cyngor Sir orffen y gwaith o lenwi'r twll ar y ffordd sy'n arwain lawr at y Bont Newydd yng Nghiliau Aeron.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:00pm